# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**2017 dccc 2**

## RHAN 4

TRINIAETHAU ARBENNIG

*Dynodi at ddibenion gofyniad trwyddedu*

### 61 Dynodi unigolyn at ddibenion adran 58(3)

(1) Os yw'r amod yn is-adran (2) wedi ei fodloni, caiff awdurdod lleol roi hysbysiad o dan yr is-adran hon i unigolyn ("P"), sy'n dynodi P at ddibenion adran 58(3) mewn cysylltiad â thriniaeth arbennig a bennir yn yr hysbysiad.

(2) Yr amod yw bod yr awdurdod wedi ei fodloni—

(a) bod P yn debygol o roi'r driniaeth i rywun arall yng Nghymru,

(b) bod y driniaeth fel y mae'n debygol o gael ei rhoi gan P yn y fath fodd yn peri risg sylweddol, neu y gallai beri risg sylweddol, o niwed i iechyd dynol, ac

(c) er mwyn dileu neu leihau'r risg honno, ei bod yn briodol ei gwneud yn ofynnol i P gydymffurfio â'r gofyniad yn adran 58(3).

(3) Rhaid i hysbysiad o dan is-adran (1)—

(a) esbonio pam y mae'r awdurdod wedi penderfynu dynodi P,

(b) pennu'r dyddiad gan ddechrau ag ef y mae'r dynodiad i gymryd effaith, ac

(c) gwahardd P rhag rhoi'r driniaeth arbennig o dan sylw, o ddechrau'r dyddiad hwnnw, ac eithrio o dan awdurdod trwydded triniaeth arbennig.

(4) Rhaid i'r hysbysiad hefyd ddatgan—

(a) y caiff P apelio o dan baragraff 18 o Atodlen 3 yn erbyn y penderfyniad, a

(b) y cyfnod y caniateir i apêl gael ei dwyn ynddo.

(5) Caniateir i'r dyddiad a bennir o dan is-adran (3)(b) fod yn ddyddiad yr hysbysiad, neu'n ddyddiad ar ôl hynny.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(6) Mae cyfeiriadau yn y Rhan hon at driniaeth arbennig y dynodir unigolyn mewn cysylltiad â hi yn gyfeiriadau at y driniaeth a bennir yn yr hysbysiad o dan yr adran hon sy'n dynodi'r unigolyn.

(7) Caiff awdurdod lleol dynnu'n ôl ddynodiad o dan is-adran (1).

(8) Os yw awdurdod lleol yn tynnu'n ôl ddynodiad unigolyn o dan is-adran (1), rhaid iddo roi hysbysiad o hyn i'r unigolyn, sy'n pennu—

(a) y rhesymau dros dynnu'r dynodiad yn ôl;

(b) y dyddiad, pan ddaw i ben, y mae tynnu'r dynodiad yn ôl i gymryd effaith.

(9) Os tynnir yn ôl ddynodiad unigolyn o dan is-adran (1) mewn cysylltiad â thriniaeth arbennig, mae'r gwaharddiad a osodir o dan is-adran (3)(c) mewn cysylltiad â'r driniaeth honno yn peidio â chael effaith pan ddaw'r dyddiad a bennir o dan is-adran (8)(b) i ben.